Pobl
Byw
Awyr agored
Iach
Cymuned
Beic
Ysgol
Ein
Sustrans **Bywyd**
Llesol
Cysylltiedig

Adolygiad Blynyddol Sustrans 2015–16

Gwaith
Dinas
Stryd
Cynaliadwy
Gofyn

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Gwnaeth disgyblion feicio neu sgwtera pellter cyfatebol i 123 taith o amgylch y ddaear yn ystod y Big Pedal 2016

£3,943,680
cyfanswm gwerth effaith ein rhaglen wirfoddoli

5,000
o bobl wedi cymryd rhan mewn prosiectau **dylunio stryd** ledled Lloegr

Mae beicio hamdden a thwristiaeth ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cynhyrchu **£650 miliwn** i'r economi bob blwyddyn

Ynglŷn â Sustrans

Mae Sustrans yn gwneud dewisiadau teithio gwell yn bosibl, yn ddymunol ac yn anochel. Rydym yn elusen flaenllaw yn y DU yn galluogi pobl i deithio ar droed, beic neu drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer rhagor o'r siwrneiau a wnawn bob dydd. Rydym yn gweithio gyda theuluoedd, cymunedau, llunwyr polisi a sefydliadau partner fel y gall pobl ddewis siwrneiau iachach, glanach a rhatach, gyda gwell lleoedd a gofodau i symud drwyddynt a byw ynddynt.

Bywyd Beicio: wedi'i ysbrydoli gan y Copenhagen Bicycle Account, a helpodd i wneud prifddinas Denmarc yn un o'r dinasoedd gorau yn y byd ar gyfer beicio, comisiynodd Sustrans yr arolwg fwyaf erioed ar agweddau am feicio yn y DU mewn partneriaeth â saith dinas: Belfast, Birmingham, Bryste, Caerdydd, Caeredin, Manceinion Fwyaf a Newcastle. Wedi'i gefnogi gan Sefydliad Freshfield, cynhaliwyd yr arolwg gyda sail o gyfweliadau ffôn gyda sampl cynrychiadol o 10,615 o oedolion.

Cwrdd ag anghenion, newid bywydau

Siwrneiau Gwerthoedd Atebion Dylunio Arwain Newid Cefnogaeth

Mae Sustrans yn newid bywydau. Am bron i 40 mlynedd rydym wedi gwneud siwrneiau'n ddiogelach, grymuso pobl, cysylltu cymunedau a chreu llefydd gwyrddach, iachach. Ac mae pawb yn elwa o'r hyn rydym yn ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o bobl bellach yn byw o fewn dwy filltir i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac mae aer glanach, strydoedd diogelach ac economi gryfach oll yn ganlyniadau o'n gwaith caled.

Y llynedd, fe wnaethom gomisiynu'r arolwg mwyaf erioed o agweddau'r cyhoedd tuag at feicio. Roedd y canlyniadau a gyhoeddwyd yn y saith adroddiad *Bywyd Beicio* yn glir: mae pobl eisiau beicio mwy. Maent yn credu y byddai eu cymunedau'n ddiogelach, iachach a mwy cynhyrchiol pe bai pobl yn beicio mwy. A dywedodd pobl wrthym eu bod eisiau mwy o fuddsoddiad i wneud i hyn ddigwydd.

Felly rydym yn gwybod fod y credoau a oedd yn sail i sefydlu Sustrans mor gryf ag yr oeddent yn ôl yn 1977. Gallwn dystiolaethu'r dymuniad i wneud teithio llesol yn ddewis i ragor o bobl, ac yn y tudalennau hyn, dangoswn pam mai Sustrans yw'r mudiad i wneud y newid hwn yn realaeth. Mae gennym ni'r profiad, yr wybodaeth, y gefnogaeth a'r weledigaeth i ddarparu'r atebion y mae pobl eu heisiau.

Er gwaethaf i'n harolwg ddangos bod dau draean o'r Aelodau Seneddol am i fwy o arian gael ei wario ar seilwaith beicio yn Lloegr, cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Tachwedd y byddai'n torri lawr ar wariant ar feicio a cherdded. Roedd hyn yn cynrychioli cam yn ôl o ran cyflawni ymrwymiadau i gynyddu teithio llesol yn Lloegr. Roedd hefyd yn wahanol i'r camau gwych a gymerwyd yng Ngogledd Iwerddon ble lansiodd y Llywodraeth ei Strategaeth Feicio, yng Nghymru ble roedd blwyddyn weithredol gyfan gyntaf y Ddeddf Teithio Llesol ac yn yr Alban ble rhoddodd y Llywodraeth £20 miliwn ar gyfer prosiectau beicio a cherdded y Community Links Programme.

Wrth i ni fynd i'r afael â llwybrau yn cau oherwydd difrod neu lifogydd dros y gaeaf, roedd yr effaith posib y gallai toriadau eu cael yn dod yn glir iawn. Rydym yn hynod ddiolchgar bod ein cefnogwyr unwaith eto wedi ymateb mor hael i'n hapeliadau. Fe'n galluogwyd i wneud gwaith trwsio hanfodol a gadwodd y genedl yn symud, diolch i roddion o bron i £200,000.

Nid estyn llaw i'r boced yn unig a gadwodd y llwybrau ar agor ac yn ddiogel. Bu'n gwirfoddolwyr wrthi'n ddygn yn eu menig trymion yn clirio llwybrau a thrwsio difrod. Yr ymroddiad hwn, ar y cyd â'r cyfoeth o sgiliau ymhlith ein llu o wirfoddolwyr, sy'n gwneud rôl y gwirfoddolwr yn bwysicach i Sustrans nawr nag erioed o'r blaen.

Un gwirfoddolwr newydd sy'n gwybod hyn fwy nag unrhyw un arall yw Malcolm Shepherd, a ymddeolodd o'i rôl yn brif weithredwr Sustrans yn Ebrill 2016 ar ôl 21 mlynedd gyda ni. Aeth Malcolm â Sustrans at y bobl drwy arolygu prosiectau a ddaeth a chymunedau at ei gilydd a thrawsnewid y llefydd tu allan i gartrefi, yn gwneud cerdded a beicio yn hwylus. Gwnaeth Sustrans yn berthnasol i fywydau pob dydd pobl. Rydym yn falch o bopeth a alluogodd Malcolm Sustrans i'w gyflawni a hoffwn ddiolch iddo ef a phob un o'n cefnogwyr, gwirfoddolwyr a phartneriaid am wneud ein gwaith yn bosibl. Mae Sustrans ar drothwy oes newydd, un a fydd yn gofyn i ni ddarganfod ffyrdd newydd o weithio, ac rwy'n gyffrous am gymryd yr her wrth i ni ddal ati i ddod o hyd i'r atebion sy'n gwella bywydau, trawsnewid llefydd a chysylltu cymunedau.

Xavier Brice, Prif Weithredwr

Ystyried pobl

Cydraddoldeb
Newid
Cartref
Cymdeithasol
Hyder
Mynediad
Diogelach
Cystadleuol
Angerdd
Dewisiadau
Cysylltiedig

Mae pawb wedi clywed y dywediad, 'corff iach, meddwl iach'. Rydym ni'n credu bod cyrff iach a meddyliau iach hefyd yn arwain at gymunedau iach. Dangoswyd bod gan ddinasoedd gyda phreswylwyr egnïol economïau mwy cystadleuol a'u bod yn elwa o gynnydd mewn cynhyrchiant.[1] Roedd hyn yn cyd-fynd â'n canfyddiadau yn *Bywyd Beicio* ble 'roedd dau draean o bobl yn dweud wrthym eu bod yn teimlo y byddai reidio beiciau yn gwneud eu dinas yn le gwell i fyw a gweithio.

Mewn dinasoedd a chymunedau ledled y DU, rydym yn gweithio tuag at wneud teithio llesol yn ddewis anochel ar gyfer siwrneiau dydd i ddydd. Rydym yn gwella trefn strydoedd ac yn grymuso pobl gyda'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder i feicio a cherdded mwy.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gyda chymunedau ledled y DU i ail-ddylunio strydoedd ar gyfer pobl, yn hytrach na cheir yn unig. Gwnaethom dreialu gosod offer stryd yn Llundain a Bryste. Mae'r strwythurau arloesol hyn yn trawsnewid mannau parcio yn fesurau tawelu traffig, gwelyau planhigion a llefydd i eistedd, chwarae a chymdeithasu.

O'r saith treial a gynhaliwyd ym Mryste, dewisodd pum cymuned wneud y gosodiadau'n rhai parhaol. Dyma dystiolaeth gadarn o'r chwant sydd i wella'r ffordd y mae ein strydoedd yn cael eu defnyddio.

Yn Peckham, buom yn gweithio gyda phreswylwyr i siapio coridorau y gallai pobl gerdded neu feicio drwyddynt yn ddiogel, neu aros a mwynhau eu hamgylchedd. Gan ein bod wedi cynnwys 3,000 o breswylwyr mewn gweithdai dylunio, digwyddiadau pleidleisio a threialu gosodiadau, roedd y gymuned yn gallu arddangos y gwelliannau parhaol yr oeddent eu heisiau ar eu strydoedd.

Mae ail-ddylunio strydoedd yn cael yr effaith fwyaf pan mae prosiectau'n digwydd wrth galon cymuned. Yn yr Alban, dechreuom weithio yng nghanol tref Kirklintolloch, a datblygom ofod hwylus a deniadol ar gyfer beicio a cherdded, gan ei gwneud yn bosibl i 20,000 o breswylwyr deithio i'r gwaith neu lefydd hamddena mewn ffyrdd cynaliadwy.

Yn ogystal â chreu amgylchoedd sy'n annog teithio llesol, rydym yn helpu pobl ddod o hyd i ffyrdd diogelach a mwy cynaliadwy i wneud eu siwrneiau rheolaidd. Fe wnaethom ddatblygu ein canolbwyntiau cymuned i fod yn 'siop un stop' ar gyfer cyngor, hyfforddiant, cynnal a chadw, benthyca beiciau am ddim, parcio beiciau a digwyddiadau.

Arbedwyd
8,000,000
cilomedr o siwrneiau car drwy ein prosiect **cynllunio teithio personol** ledled Ewrop

Cymerodd
5,000
o bobl ran mewn prosiectau **dylunio stryd** ledled Lloegr

Dysgodd
600
o blant i **reidio beic** mewn canolbwyntiau cymunedol yn Tyne a Wear yn haf 2015

1 Ymchwil o Brifysgol California a gyhoeddwyd yn 2015

Yn ein canolbwynt yn Stockton-on-Tees, cyfrannodd gweithgareddau dan arweiniad gwirfoddolwyr werth cyfatebol i £52,000 i'r economi leol pob blwyddyn. Mae'r canolbwynt hefyd wedi cael ei gomisiynu gan y GIG i ddarparu prosiect peilot gyda chleifion diabetes i leihau'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty. Rhoddodd y canolbwynt hwn yr ysbrydoliaeth i agor 20 canolbwynt newydd ar Lannau Merswy a Bike Dock Sunderland y llynedd. Mae'n esiampl o'r effaith mae ein gwaith yn gallu ei gael ar gymunedau ac ar fywydau pobl leol, fel dywedodd Joanne Liddle o Stockton:

"Fedra i ddim egluro'r fath hapusrwydd mae'r Canolbwynt wedi ei roi i fy mywyd. 'Rydw i wedi colli wyth stôn o bwysau a dwi'n caru'r awyr agored a gweld golygfeydd hardd, mae beicio'n rhoi hynny a mwy i mi. 'Rydw i'n mynd i bobman ar fy meic, 'dw i byth yn gyrru."

Rydym hefyd yn angerddol am drawsnewid cymunedau o fewn cymunedau. Gyda 10% yn llai o ferched na dynion yn beicio, sefydlwyd y gymuned feicio Bike Belles yn Efrog i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac annog merched drwy gyngor a gweithgareddau codi hyder i ddechrau beicio neu i feicio'n amlach. Mae dros 40 o ferched wedi gwirfoddoli fel pencampwyr lleol ac o'r 12,000 o bobl a ymgysylltodd gyda Bike Belles ar-lein ac mewn digwyddiadau, dywedodd 75% eu bod yn beicio mwy.

Rydym yn gwybod o fod wedi ail-ddylunio'r gofodau tu allan i gartrefi pobl bod newid ymddygiad yn dechrau yn y cartref. Dyna pam, fel rhan o brosiect gyda phartneriaid Ewropeaidd, y darparom ni gynllunio teithio personoledig i bobl yn eu cartrefi yn Haringey a Greenwich. Pan wnaethom ymholiadau dilynol ar ein 9,368 sgwrs gyda phobl, darganfuom fod 16.7% o breswylwyr wedi newid eu hymddygiad teithio, gan helpu i wneud eu cymunedau yn iachach, yn fwy cynhyrchiol ac yn fwy cystadleuol yn economaidd.

Mae helpu cymunedau i helpu eu hunain yn rhan allweddol o'n hymgysylltu. Yn Llundain roedd ein pencampwyr awyr glanach yn helpu preswylwyr i droi eu strydoedd yn strydoedd awyr glanach drwy osod parciau dros dro ble byddai ceir yn parcio fel arall.

Lansiwyd ein hoffer stryd yn Llundain a throi'r mannau parcio yn fannau i bobl. Ysbrydolwyd yr offer stryd trawiadol, lliwgar gan gadwyn beic, a chafodd ei wneud fel modd symudol o dreialu gosodiadau stryd.

Gwnaethom ddarparu cynllunio teithio personoledig i bron 10,000 o bobl ledled Haringey a Greenwich fel rhan o brosiect partneriaeth Ewropeaidd a wnaeth arbedion ar y cyd o 1,031 tunnell o allyriadau CO_2.

Dysgu ac ennill cyflog

Hyfforddiant Sgiliau Cyfle Ifanc Hen Addysg Siwrneiau Rhwystrau Diogelwch Iechyd

Mae bron hanner rhieni yn teimlo nad yw eu plant yn cael digon o ymarfer corff, gyda llawer mwy yn poeni y bydd anweithgaredd eu plant yn achosi problemau iechyd nawr ac yn y dyfodol.[2] Felly mae ein gwaith o alluogi disgyblion i sgwtera, cerdded neu feicio i'r ysgol yn ffordd ddelfrydol o roi gweithgaredd corfforol yn ôl wrth galon plentyndod. Ac mae athrawon yn dweud wrthym nad buddion corfforol yn unig sy'n dod yn ei sgil: mae disgyblion yn fwy hyderus ac annibynnol, gyda gwell sgiliau arwain, gweithio mewn tîm a sgiliau trefniadol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, gweithiodd Sustrans gyda dros hanner miliwn o bobl ifanc i hybu beicio, cerdded a sgwtera mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled y DU. Yn Ebrill 2016, er enghraifft, cyflawnodd disgyblion a rhieni o 1,680 o ysgolion yn bell dros 110,000 o siwrneiau bob dydd ar feic neu sgwter yn ystod y Big Pedal, ein cystadleuaeth beicio a sgwtera rhwng ysgolion.

Mae ein swyddogion ysgolion ymroddedig yn gweithio gydag ysgolion o amgylch y wlad bob dydd i gynyddu mynediad at feicio a newid ymddygiad teithio. Yn Llundain, er enghraifft, roedd cynnydd o 75% yn y nifer o ddisgyblion yn beicio'n rheolaidd i'r 164 ysgol yr oeddem yn gweithio ynddynt. Esiampl nodweddiadol arall yw St Nicholas Chantry Primary School yng Ngogledd Gwlad yr Haf, a oedd yn cael problemau gyda thagfeydd a pharcio ger giât yr ysgol. Adroddodd y Pennaeth, Peter Treasure-Smith:

> **"Mae'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni tu hwnt i unrhyw ddisgwyliad. Tyfodd bob wythnos, gyda rhywbeth arbennig i bob grŵp blwyddyn. Ar y diwedd roeddem yn wirioneddol yn teimlo ein bod wedi cyflawni."**

Enwebodd yr ysgol Bencampwr Teithio Llesol, weithiodd gyda'r Pennaeth i ddefnyddio ein canllaw cam wrth gam rhad ac am ddim i greu cynllun teithio llesol i'r ysgol er mwyn mynd i'r afael â'r tagfeydd. Helpodd swyddog Sustrans yr ysgol i gael cymorth darparwyr hyfforddiant a chynnal a chadw beiciau ar gyfer yr amserlen chwe wythnos. Bob wythnos, cynhaliwyd sesiynau thematig ar gyfer pob grŵp blwyddyn i adeiladu gwybodaeth, hyder a brwdfrydedd yn raddol. Yn ogystal â hyfforddiant, cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod heb wisg ysgol – 'bod yn llachar, cael eich gweld' – ac wythnos cerdded i'r ysgol.

Erbyn diwedd y chwe wythnos, gwelodd yr ysgol fod y nifer o ddisgyblion a oedd yn teithio i'r ysgol mewn car wedi gostwng o hyd at 26%. Mae'r ysgol nawr yn cynllunio gweithgareddau pellach ac yn gweithio tuag at wobr Efydd Nod Ysgol Sustrans.

Nid ar blant yn unig y mae ein gwaith addysgol yn canolbwyntio. Yn ein canolbwynt cymunedol yn Nottingham, er enghraifft, rydym wedi galluogi dros 3,000 o bobl sy'n chwilio am waith i oresgyn rhwystrau rhag teithio i'r gwaith, i hyfforddiant ac i gyfweliadau. Ac yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi cynnal cwrs peilot Safe Urban Driving llwyddiannus ar gyfer gyrwyr lorïau, ar y cyd â'r Freight Transport Association a Cycle Training UK.

Mae'r daith ddyddiol i'r gwaith yn rhan fawr o fywyd bob dydd. Yn 2015, roedd dros ddau draean o siwrneiau i'r gwaith yn cael eu gwneud mewn car.[3] Dyna pam rydym wedi gweithio'n uniongyrchol gyda channoedd o gyflogwyr ledled y DU i ddarparu cyngor, cefnogaeth a chynlluniau teithio personoledig i filoedd o weithwyr sy'n dymuno teithio'n gynaliadwy.

Trwy ddarparu hyfforddiant i bencampwyr teithio yn y gweithle, rydym hefyd wedi grymuso'r cyfranogwyr gyda'r wybodaeth a'r hyder i hybu teithio cynaliadwy gyda'u cydweithwyr. Mae'r pencampwyr teithio hyn wedi ein helpu i gynnal nifer o heriau teithio gweithle rhanbarthol a chenedlaethol. Cofnodwyd cyfanswm o 242,166 o deithiau llesol a chynaliadwy gan 20,000 o gyfranogwyr, a hynny'n arbed y swm enfawr o 200,000kg o CO_2.

Fe wnaeth disgyblion feicio neu sgwtera pellter cyfatebol i **123 taith o amgylch y** byd yn ystod y Big Pedal 2016

Ymgysylltodd **10% o ysgolion** y DU gyda ni yn 2015/16

Teithiwyd **2,000,000 milltir** yn gynaliadwy gan gyfranogwyr heriau teithio yn y gweithle

2 Arolwg YouGov, 2015
3 Yr Adran Drafnidiaeth, Ystadegau Trafnidiaeth Prydain, 2015

Yn ogystal â dysgu sgiliau newydd a hyrwyddo teithio llesol, mae ein swyddogion ysgolion yn rhoi cyfle i ddisgyblion fwynhau beicio tu hwnt i'w siwrneiau ysgol. Rhoddodd ddigwyddiad cymyn y Gemau Olympaidd yn y Velopark yr haf diwethaf gyfle i 160 o ddisgyblion o 10 ysgol feicio ar y trac BMX, y trac beicio mynydd ac yn y felodrom.

Mae ein cyrsiau hyfforddiant proffesiynol yn grymuso eraill i oresgyn rhwystrau i deithio llesol. Hyfforddodd Better by Design 36 o bobl broffesiynol sy'n ymwneud â chynllunio a datblygu cynlluniau priffyrdd beic-gyfeillgar, a llwybrau a rhwydweithiau oddi ar y ffordd.

Rydym yn creu diwylliant teithio llesol mewn 145 o ysgolion yng Nghymru ac rydym wedi gofyn i ddisgyblion adnabod rhwystrau sy'n eu hatal rhag cerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol yn ddiogel. Bwydodd ein swyddogion ysgolion yr wybodaeth hon i mewn i ddatblygiad Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.

Roedd oriau gwirfoddolwyr yn cyfateb i **22 aelod staff llawn amser**

£3,943,680
cyfanswm gwerth effaith y rhaglen wirfoddoli

74%
o wirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn **cyfrannu'n effeithiol** at ein cenhadaeth

Llawer o ddwylo

Gyda'n gilydd Pobl Gweithgar Cydweithio Cymuned Ysbryd Cymdeithasol Iach Rhoi Mudiad Pencampwyr

Ein rhwydwaith o wirfoddolwyr yw'n adnodd fwyaf. Mae ein 4,000 o wirfoddolwyr yn ein galluogi i gyflawni ein huchelgeisiau a darparu'r hyn y mae eraill yn ei ddisgwyl gennym. Heb gefnogaeth yr unigolion ymroddedig hyn, ni fyddem yn gallu cynnal y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, gwella ein llwybrau ar gyfer bywyd gwyllt nag ymgysylltu cenedlaethau newydd o feicwyr drwy ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ein cymunedau, ein hysgolion a'n gweithleoedd.

Eleni fwy nag erioed, mae gwerth ein gwirfoddolwyr wedi dod yn glir. Oherwydd y gaeaf gwlypaf ar gofnod, roedd rhannau o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn anhramwyadwy. Yn yr Alban a gogledd Lloegr – y mannau a gafodd eu heffeithio fwyaf gan dywydd garw – daeth ein gwirfoddolwyr at ei gilydd dros yr achos. Cliriwyd malurion a choed o'r llwybrau, cafodd ffensys eu trwsio, a chofnodwyd ac adroddwyd am ddifrod mwy difrifol. Llwyddodd un ceidwad gwirfoddol yn Ne Ayrshire, gyda dim ond rhaw blyg fel offer, i gadw rhan o Lwybr 7 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ar agor er gwaethaf gwyntoedd cryfion yn gorchuddio'r llwybr gyda thywod o draeth Ayr dro ar ôl tro.

Rydym yn gwybod o ganlyniad i'n harolwg *Bywyd Beicio* bod pobl yn dymuno beicio mwy. Mae dau draean o'r ymatebwyr hefyd yn credu y byddai eu cymunedau yn well pe bai rhagor o bobl yn beicio. Mae ein gwirfoddolwyr yn gwireddu hyn. Wrth arwain teithiau beic, cynnig cyngor a chynnal a chadw llwybrau diogel, maent yn galluogi miloedd o bobl bob blwyddyn ledled y wlad i oresgyn rhwystrau rhag beicio ac i fwynhau beicio.

Yn ystod yr haf, trefnodd ein gwirfoddolwyr 175 o ddigwyddiadau Ewch i Archwilio, a oedd yn cynnwys teithiau beic wedi'u harwain ar lwybrau distaw a rhai di-draffig. Cynhaliwyd digwyddiadau tebyg gan ein gwirfoddolwyr mewn canolbwyntiau cymunedol yng ngogledd Lloegr. Mae llwyddiant a phoblogrwydd ein gweithgareddau dan arweiniad gwirfoddolwyr wedi agor y drws i fuddsoddiad sy'n ein galluogi i agor canolbwyntiau newydd ar draws y rhanbarth.

Mae ein gwirfoddolwyr hefyd yn gwneud teithio llesol yn fwy hygyrch i bobl drwy wneud yn sicr bod llwybrau'n cael eu cynnal yn dda a bod arwyddion yn glir. Yn Barnsley, penderfynodd ein cydlynydd grŵp gwirfoddolwyr, Eleanor Davenport, ar ei liwt ei hun i ail-baentio'r holl bolion arwyddion metal yn ei hardal.

Hugh Kerr

Yn gynnar yn 2016, cynhaliom arolwg gwirfoddolwyr gyda'n gwirfoddolwyr ledled y DU a chafwyd ymateb anhygoel o 82% yn dweud y byddent yn argymell gwirfoddoli gyda Sustrans i'w ffrindiau.

Steven Barber

Mae cefnogaeth ein gwirfoddolwyr yn gwneud ein dathliadau mawr yn bosibl, fel lansiad y Bay Cycle Way 81 milltir yn Sir Gaerhirfryn a gynhaliwyd dros bedwar diwrnod ym Mehefin 2015.

Mae ein gwirfoddolwyr yn cyflawni llawer iawn o waith cynnal a chadw ac archwiliadau ar draws y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Yng ngogledd Lloegr, cynhaliodd gwirfoddolwyr 85% o'r archwiliadau ar ein heiddo, a'n helpodd ni i gynllunio gwaith cynnal a chadw i gadw pobl yn symud.

Yn ogystal â chynnal yr isadeiledd ar hyd ein llwybrau, mae ein gwirfoddolwyr hefyd yn edrych ar ôl y bywyd gwyllt sydd wedi gwneud y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn gartref iddyn nhw'u hunain. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein 231 pencampwr bywyd gwyllt wedi gwella cynefinoedd ac arolygu rhywogaethau ar 44 o lwybrau di-draffig. Wrth lasu'r llwybrau y mae pobl yn eu defnyddio ar gyfer cerdded a beicio, mae ein gwirfoddolwyr yn sicrhau bod teithio llesol yn golygu mwy na gweithgaredd corfforol yn unig. Maent yn creu mannau hapusach, tawelach.

Yng Nghanolbarth Lloegr, gweithiodd gwirfoddolwyr mewn partneriaeth â Butterfly Conservation ar y Lias Line. Cyfrannodd mwy na 40 o wirfoddolwyr dros 210 awr yn ystod Tachwedd a Rhagfyr i greu cynefin ar gyfer gloÿnnod byw megis y glesyn bychan a'r gwibiwr llwyd.

Mae'r gwaith caled o gael gwared â phlanhigion mewnwthiol a gwneud lle i flodau sy'n dda i fywyd gwyllt yn helpu gwirfoddolwyr gadw'n weithgar yn gorfforol. Ar gyfer eraill, fel pencampwr bywyd gwyllt Canolbarth Gorllewinol Lloegr, Charlotte Hammond, mae gwirfoddoli gyda Sustrans yn gam hanfodol tuag at yrfa newydd.

"Mae Greener Greenways yn wych. Roeddwn eisiau ychydig o brofiad ac yma, gallaf roi fy ngwybodaeth ar waith. Ar yr un pryd, dw i'n helpu i gysylltu pobl gyda natur."

Ym mis Tachwedd, cafodd yr holl waith caled a wnaed gan ein pencampwyr bywyd gwyllt ei gydnabod pan gafodd Greener Greenways wobr gan Gymdeithas Lonydd Glas Ewrop yng Ngwlad Belg.

Cysylltiadau angenrheidiol

Mynediad Lleol Cenedlaethol Am ddim Gofod Ymarfer corff Awyr agored Di-draffig Awyr iach Symudiad

Mae annog pobl i newid eu hymddygiad teithio yn dod yn haws drwy ddatblygiad amgylchedd ffisegol addas. Diolch i'n hymatebwyr i'r arolwg *Bywyd Beicio*, gwyddwn fod pobl eisiau newid y ffordd y maent yn teithio, yn enwedig drwy feicio mwy. Dyna pam yr ydym wedi dal ati i dyfu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn ei 22ain flwyddyn a chreu mwy o gysylltiadau lleol sy'n helpu pobl ddewis teithio llesol.

Mae ein creadigaeth o rwydwaith bellgyrhaeddol o lwybrau sy'n cael ei ddefnyddio gan bron i bum miliwn o bobl bob blwyddyn wedi ein rhoi mewn safle arweiniol mewn darparu atebion ar gyfer datblygu teithio llesol. O ganlyniad, mae gofyn am ein sgiliau nawr. Yng Nghymru, mae'r Llywodraeth wedi ein comisiynu i archwilio 23 o dwneli rheilffordd segur ac i greu adroddiadau ar ymarferoldeb eu trawsnewid yn llwybrau cerdded a beicio.

Yn Llundain, rydym wedi cael ein penodi gan Transport for London (TfL) i ddarparu cyflawniad Quietways, rhwydwaith di-dor o lwybrau ar hyd strydoedd distawach, parciau a dyfrffyrdd sy'n helpu preswylwyr i oresgyn rhwystrau rhag beicio. Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ym mwrdeistrefi Llundain i ddatblygu a darparu llwybrau sy'n cysylltu ardaloedd preswyl gyda gwasanaethau lleol. Drwy gysylltu Quietways gydag isadeiledd beicio arall, rydym wedi helpu i greu rhwydwaith o lwybrau ar draws y ddinas sy'n galluogi pobl i wneud siwrneiau rhatach, glanach ac iachach ar hyd y brifddinas.

Roedd adfywio gofodau segur yn rhan allweddol o greu'r Millwall Quietway 750 medr, a adeiladwyd

Mae llwybrau camlesi yn ofod i'w rannu. Fe wnaethom annog pawb i fod yn ystyriol o bob defnyddiwr arall (pa bynnag rywogaeth y bo) drwy gydweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd i greu lonydd hwyaid ar lwybrau camlesi ledled Cymru a Lloegr fel rhan o'r ymgyrch #sharethespace

Treuliom 2015 yn dathlu penblwydd 20fed y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac yn diolch i'r holl bobl a'n helpodd ni i'w ddatblygu, y miloedd o wirfoddolwyr sy'n gweithio i'w gynnal, a'r miliynau o bobl sy'n ei fwynhau bob dydd.

ar reilffordd segur tu ôl i orsaf South Bermondsey. Tynnwyd dros chwe thunnell o hen reilffordd oddi yno i gael ei ailddefnyddio yn rhywle arall, a chafodd 1,540 medr sgwâr o lain gwyrdd ei greu o ddarnau o dir a oedd wedi'i esgeuluso. Mae'r llwybr yn ffurfio rhan o Quietway cyntaf Llundain, yn cysylltu Waterloo gyda Greenwich, ac agorodd ym Mehefin 2016. Dywedodd Brian Deegan, Prif Arbenigwr Technegol yn TfL:

> **"Mae un o'r rhwystrau pennaf i feicio yn Ne Ddwyrain Llundain nawr wedi cael ei oresgyn gyda dyfodiad y cysylltiad deniadol, gwyrdd, di-draffig hwn, ac felly llawer o ddiolch i Sustrans am eu rôl yn y llwyddiant hwn."**

Ym Mehefin y llynedd fe wnaethom agor y Morcambe Bay Cycle Way, sy'n 81 milltir o hyd, gyda dathliad dros bedwar diwrnod. Yn wahanol i Quietways Llundain, dyluniwyd y llwybr yn ysbryd twristiaeth araf deg – i alluogi beicwyr i fwynhau'r bwyd a diod lleol, y golygfeydd a'r dreftadaeth o amgylch y bae. Ymhellach i'r gogledd yn yr Alban, fe wnaethom orffen y Caledonia Way o flaen ei agoriad yng ngwanwyn 2016. Mae'r llwybr 237 milltir trawiadol hwn yn rhedeg o Campbeltown i Inverness, yn mynd a beicwyr a cherddwyr heibio tirnodau eiconig ac yn rhoi'r cyfle iddynt fwynhau bwyd a diod lleol.

Wrth greu mwy o lwybrau beicio a cherdded fel y rhain, rydym yn adeiladu economi gryfach. Mae twristiaeth beicio o deithiau undydd a gwyliau yn cefnogi dros 15,000 o swyddi mewn busnesau lleol o amgylch y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac yn dod â £650 miliwn i economi'r DU bob blwyddyn.

Yn ogystal ag ychwanegu i'r economi, mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cynhyrchu arbedion enfawr o £1 miliwn bob dydd drwy wella iechyd pobl, lleihau tagfeydd, llygredd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Rydym yn amcangyfrif bod yr arbedion iechyd blynyddol i'r GIG yn cyfateb i £22 miliwn o leihau gordewdra a thewdra yn unig.

Mae creu trysor cenedlaethol gyda'r fath werth i'r economi, i'r GIG, i fusnesau, i gymunedau, i'r amgylchedd ac i fywydau pobl yn gofyn am syniadau mawrion. Y syniadau hyn, a ganiataodd i ni oresgyn rhwystrau a dod â chymunedau ynghyd, oeddem ni'n eu dathlu ym mis Hydref yn ein Gwobrau Isadeiledd. Roedd y gwobrau yn dathlu prosiectau yn y categorïau canlynol: effaith cymunedol orau, dyluniad a gwneuthuriad gorau, partner gorau a thrawsnewid gofod cyhoeddus gorau. Roedd y prosiectau buddugol oll yn adlewyrchu'r safonau uchaf ar y Rhwydwaith ac roeddent yn fodd o arddangos sut mae cynllunio a dylunio da, ynghyd â gweithio mewn partneriaethau cryfion, yn dod a newid cadarnhaol i fywydau pobl.

Rydym ni'n chwarae ein rhan mewn hybu beicio twristiaeth a hamddena, p'un ai'n annibynnol neu fel rhan o Dîm Sustrans ar her feicio. Mae defnyddio'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol fel hyn yn cynhyrchu £650 miliwn i'r economi genedlaethol bob blwyddyn.

Mae beicio hamddena a thwristiaeth ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn unig yn cynhyrchu **£650 miliwn** i'r economi bob blwyddyn, a …

chefnogir **15,000** **o swyddi** o amgylch y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

Mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn arbed dros **£30 miliwn** i fusnesau'r DU bob blwyddyn drwy leihau dyddiau salwch staff

Parhau ar ein siwrne

Rydym, yn ôl ein harfer, yn gosod targedau uchel ar gyfer y flwyddyn i ddod. Byddwn yn parhau i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf drwy ein gwaith mewn ysgolion, yn creu gweithleoedd cynhyrchiol drwy ymgysylltu gyda chyflogwyr, dylunio strydoedd diogelach o dan arweiniad preswylwyr a thyfu Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol gwyrddach gyda chymorth ein gwirfoddolwyr. Ond bydd raid i ni ddarganfod ffyrdd newydd o weithio a chroesawu partneriaethau newydd os ydym am gyflawni'r newidiadau ehangach yr ydym ni'n credu sydd eu hangen i ymddygiad teithio.

Gwella Hyblygrwydd Dyfodol Buddsoddiad Siwrne Lonydd Glas Gorwelion Creu Canolbwynt Uchelgais Adeiladu

Yn Lloegr, er mwyn cwrdd â'r newid yng ngwariant y llywodraeth ar drafnidiaeth i fodel mwy datganoledig, bydd angen i ni weithio'n agosach at awdurdodau lleol. Yng Nghanolbarth Lloegr, er enghraifft, bydd ein rheolwyr ardal yn gweithio un diwrnod yr wythnos o fewn cynghorau er mwyn helpu i siapio cynlluniau datblygu a chysylltu rhwydweithiau beicio a cherdded ehangach.

Bydd gweithio ar y cyd hefyd yn ganolog i'n hymdrechion yng Nghymru, ble, ynghyd â'n partneriaid, byddwn yn datblygu cynghrair a fydd yn gallu codi'r proffil cyhoeddus a gwella ymroddiad gwleidyddol wrth lunio mapiau rhwydwaith integredig y Ddeddf Teithio Llesol.

Bydd cefnogi mentrau llywodraeth hefyd yn rhan allweddol o'n gwaith yn yr Alban. Byddwn yn cymryd rôl weithredol mewn cynorthwyo i adolygu'r Cynllun Gweithredu Beicio ar gyfer yr Alban (Cycling Action Plan for Scotland - CAPS) a'r Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol. Byddwn hefyd yn cefnogi darpariaeth y Cynllun Gweithredu Gweithgaredd Corfforol.

Byddwn yn adeiladu ar ein safle fel arweinwyr mewn darparu atebion ar gyfer poblogaeth fwy gweithgar, cymunedau hapusach ac amgylchedd iachach. Yn Llundain, byddwn yn ceisio parhau ein gwaith o ddatblygu Quietways tra ar yr un pryd yn ehangu ein hymrwymiad mewn prosiectau datblygu sylweddol, megis Pont Feiciau Afon Tafwys.

Elfen ysgogol sydd wrth wraidd ein gwaith mewn dinasoedd yw gwella ansawdd yr aer i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Yng Ngogledd Iwerddon byddwn yn dechrau gweithio ar raglen wedi'i chyllido gan yr UE i dargedu lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy newid ymddygiad ymysg cymudwyr. Bydd y rhaglen dair blynedd hon yn canolbwyntio ar ddefnydd y Comber Greenway, a bydd hefyd yn cael ei gynnwys fel llwybr arolwg allweddol wrth i ni ddechrau ar Strategaeth Lonydd Glas ar gyfer yr Adran dros Ddatblygiad Rhanbarthol.

Gyda'r car yn parhau i fod y prif ddull teithio ymysg cymudwyr, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar newid y ffordd y mae pobl yn teithio i'r gwaith. Fel rhan o hyn, byddwn yn recriwtio a hyfforddi pencampwyr newydd mewn gweithleoedd, yn enwedig yn y De Ddwyrain ble'r ydym yn helpu busnesau bychain i wneud gwahaniaeth mawr. Er mwyn rhoi symbyliad ychwanegol i gymudwyr ddewis teithio llesol, byddwn yn cynnal heriau teithio gweithleoedd unwaith eto ledled y DU.

Am y tro cyntaf yn ein gwaith o gefnogi gweithwyr, byddwn hefyd yn cyflawni cytundeb i wneud Heathrow y maes awyr beicio cyntaf. Bydd ein swyddog Heathrow yn datblygu cynllun i alluogi'r 21,000 gweithiwr yn Heathrow sy'n byw o fewn tair milltir i'r maes awyr gyrraedd eu gwaith drwy deithio llesol.

Rydym wedi cyflawni llawer dros y blynyddoedd ac mae ôl ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth bob dydd i fywydau pobl. Ond mae llawer o waith ar ôl i'w wneud ac mae ein hadroddiadau *Bywyd Beicio* yn dangos i ni fod dymuniad ymysg pobl am newid mwy fyth. Credwn mai ni yw'r bobl i wneud i'r newid hwnnw ddigwydd.

Adolygiad ariannol

Yn 2015–16, cyflawnodd Sustrans £49 miliwn o brosiectau ymarferol, er gwaethaf y pwysau parhaus ar gyllid. Fe wnaethom weithio gyda theuluoedd, cymunedau, llunwyr polisi a mudiadau partner i wneud cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn ddewis amlwg i bobl ledled y DU. Er mwyn parhau i wneud ein gwaith mewn hinsawdd economaidd sy'n parhau i fod yn anodd, mae angen i ni ehangu ein sylfaen cyllido ac rydym yn chwilio am bartneriaethau i weithio ar brosiectau o gynlluniau lleol i raglenni ar gyfer dinasoedd cyfan.

Roedd cyflawni prosiectau ymarferol yn cyfrif am tua 97% o'n gwariant – felly mae gweithio gyda Sustrans yn fuddsoddiad ardderchog. Os hoffech chi ein helpu i wireddu ein gweledigaeth o fyd ble mae pobl yn dewis teithio mewn ffyrdd sy'n buddio eu hiechyd a'r amgylchedd, cysylltwch gyda ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y dudalen gefn.

Ymarferol Economaidd Partner Incwm Cronfa Buddsoddiad Darparu Grant Ffynhonnell Dychwelion Cefnogaeth

O le y daeth ein harian



£25,917,000
Ffioedd a grantiau gan lywodraethau canolog

£20,540,000
Ffioedd a grantiau gan eraill, yn cynnwys llywodraethau lleol

£3,600,000
Codi arian

Cyfanswm incwm 2015–16: £50,057,000

Sut y gwariwyd yr incwm hwnnw



£33,856,000
Creu a chynnal llwybrau i bobl gerdded a beicio mwy

£8,051,000
Galluogi plant a phobl ifanc i deithio'n ddiogel ac yn annibynnol

£6,851,000
Cynyddu lefelau teithio llesol ymysg cymunedau a gweithleoedd

£1,860,000
Codi arian gwirfoddol a marchnata

Cyfanswm gwariant 2015–16: £50,618,000

Mae dadansoddiad ariannol llawn ar gael o www.sustrans.org.uk/about-us/financial-review

Llawer o ddiolch

Hyder Rhwydwaith Cymuned Partneriaeth Mudiad Gyda'n gilydd Galluogi Dyfodol Cefnogaeth Darparu Llwyddiant

Rydym bob amser yn ddiolchgar i'r bobl, i'r partneriaid prosiect, i'r awdurdodau lleol, yr ymddiriedolaethau a'r mudiadau eraill sydd wedi cefnogi'n gwaith yn 2015–16. Llawer o ddiolch iddyn nhw ac i'n noddwyr a llysgenhadon, sydd, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi cefnogi ein galwadau am lwybrau diogelach fel y gall pobl deithio ar droed ac ar feic.

Mae ein gwirfoddolwyr ymroddedig yn gwneud gwaith ardderchog o ledaenu'r neges am Sustrans yn eu cymunedau lleol a gwneud y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn le diogel ac iach i bobl wneud eu siwrneiau bob dydd. Felly llawer o ddiolch iddyn nhw, a hefyd i'n cefnogwyr, a'u hymroddiad i'r weledigaeth a rannwn, sy'n eu gwneud yn rhan annatod o bob agwedd o'n gwaith ac yn hanfodol i'n llwyddiant yn y dyfodol. Maen nhw'n arddangos hyn, nid yn unig drwy roddion ariannol ond hefyd drwy wirfoddoli a chefnogi ymgyrchoedd lleol.

Rydych oll wedi ein helpu ni i roi dewis i bobl gael siwrneiau iachach, glanach a rhatach, ac i greu gwell lleoedd i symud drwyddynt a byw ynddynt. Ni fedrwn wneud hyn heboch chi.

Nid yw'n bosib rhestru pawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r bobl a'r mudiadau canlynol am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal ag i'r rhai sydd wedi dewis aros yn ddienw.

Ein prif gefnogwyr a chyrff partneriaeth:

Active Living Research
Adran Addysg (GI)
Adran Drafnidiaeth (y DU)
Adran Iechyd (y DU)
Adran Seilwaith
Adrian Davis Associates
Age UK
Arla Foods UK
Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd GI
Awdurdod Parc Cenedlaethol y Cairngorms
Barcan Woodward Solicitors
Beicio Prydain
Beicio'r Alban
Bicycle Association
Bike Hub
British Heart Foundation
British Land
Bwrdeistref Hounslow, Llundain
C40 Cities Climate Leadership Group
Campaign for Better Transport
Canolfan Genedlaethol y British Heart Foundation ar gyfer Gweithgaredd Corfforol
Canolfan Ymchwil i Ddeiet a Gweithgarwch
Carter Jonas
Central Taxis – Caeredin
ClientEarth
Coleg Brenhinol y Meddygon
Coleg King's Llundain
Coleg Prifysgol Llundain
Comisiwn Coedwigaeth Lloegr
Croeso Cymru
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Cwmni Mercers
Cyclepods
Cycling UK
Cyfadran Iechyd Cyhoeddus
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd
Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cymdeithas y Pridd
Chiltern Railways
Ecotricity
European Greenways Association
Farrell Architects
Foresight
Frogbikes
Ffederasiwn Beicwyr Ewrop
Greater Anglia
Grŵp Elusennau Richmond
Halfords
Iechyd Cyhoeddus Lloegr
Intelligent Health
Living Streets
Living Streets yr Alban
London & South Eastern Railway Cyf
Llywodraeth Cymru
Llywodraeth yr Alban
Movement for Liveable London
Natural England
Network Rail
Nike
Parc Cenedlaethol Loch Lomond a'r Trossachs
Parc Gwyliau Machrihanish
Parc Rhanbarthol Lee Valley
Partneriaeth ar gyfer Teithio Llesol, Trafnidiaeth ac Iechyd
Polis
Prifysgol Bryste
Prifysgol Lincoln
Prifysgol Nottingham
Priffyrdd Lloegr
Pukka Teas
Road Haulage Association
Road Peace
Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Hybu Gweithgaredd Corfforol sy'n Gwella Iechyd
Saddle Skedaddle
Sefydliad Blair
Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd
Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth mewn Iechyd a Gofal
Sefydliad Esmée Fairbairn
Sefydliad Freshfield
Sefydliad George A Moore
Sefydliad Iechyd y Byd
Sefydliad Peirianwyr Sifil
Sefydliad Ratcliff
Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd
Spiral Arts
Strathclyde Partnership for Transport (SPT)
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer Gwyddoniaeth
Trafnidiaeth yr Alban
Transport for Greater Manchester
Transport for London
Treftadaeth Naturiol yr Alban
Triodos
Twristiaeth Gogledd Iwerddon
UK Health Forum
ukactive
Uned Datblygu Cynaliadwy'r GIG
Uned Datblygu Iechyd Belfast
Urban Transport Group
Velosure
Wheels for Wellbeing
WT Architecture
Y Gronfa Loteri Fawr
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gloÿnnod Byw Prydain
Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
Ymddiriedolaeth Elusennol Gerald Micklem
Ymddiriedolaeth Elusennol Gunter
Ymddiriedolaeth Elusennol Melbreak
Ymddiriedolaeth Elusennol Nineveh
Ymddiriedolaeth Elusennol Peacock
Ymddiriedolaeth Elusennol Sylvia a Colin Shepherd
Ymddiriedolaeth Elusennol William Brake
Ymddiriedolaeth Ernest Cook
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Nottingham
Ymddiriedolaeth Gofal Cynradd Tower Hamlets
Ymddiriedolaeth Hadfield
Ymddiriedolaeth Harpur
Ymddiriedolaeth Iechyd y Cyhoedd
Ymddiriedolaeth Iechyd y Bobl
Ymddiriedolaeth Rowlands
Ymddiriedolaeth Serve All
Ymddiriedolaeth Stephen Clark 1965
Ymddiriedolaeth Treftadaeth y Rheilffyrdd
Ymddiriedolaeth Wixamtree
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt

Our trustees:

Ein hymddiriedolwyr:
Claire Addison
Valerie Aherne
Andrew Balfour
Ed Condry
Mark Edgell
Anne Hyland
Kirsty Lewin
Richard Morris
Jamie O'Hara
Bill Stow (Cadeirydd)

Cysylltwch â ni

Mae Sustrans yn elusen flaenllaw yn y DU sy'n galluogi pobl i deithio ar droed, beic neu drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer rhagor o'r siwrneiau a wnawn bob dydd. Os hoffech wybod rhagor am unrhyw agweddau o'n gwaith, hoffem glywed gennych.

Cysylltiadau

Prif Swyddfa Sustrans
2 Cathedral Square
College Green
Bryste BS1 5DD

Ffôn: 0117 926 8893

Llundain
70 Cowcross Street
Llundain EC1M 6EJ

Ffôn: 0207 017 2350
london@sustrans.org.uk

Sustrans Cymru
123 Stryd Bute
Caerdydd CF10 5AE

Ffôn: 029 2065 0602
sustranscymru@sustrans.org.uk

Sustrans Gogledd Iwerddon
Premier Business Centres
20 Adelaide Street
Belfast BT2 8GD

Ffôn: 028 9043 4569
belfast@sustrans.org.uk

Sustrans yr Alban
Rosebery House
9 Haymarket Terrace
Caeredin EH12 5EZ

Ffôn: 0131 346 1384
scotland@sustrans.org.uk

Dilynwch ni ar

Am gopi Saesneg o'n hadolygiad blynyddol, ewch at www.sustrans.org.uk

Ar y cyfan, mae'r ystadegau yn yr adolygiad blynyddol hwn wedi'u codi o fonitro ein prosiectau ledled y DU. Oherwydd hynny, maent wedi'u seilio ar gasglu data o samplau o fuddiolwyr sydd wedyn yn cael ei ddadansoddi gan ein tîm ymchwil a monitro penodol.

RECYCLED
Paper made from recycled material
FSC® C120778
www.fsc.org

Argraffwyd gyda 100% ynni adnewyddadwy gan ddefnyddio proses ddi-alcohol ac inc llysieuol

www.sustrans.org.uk

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

© Sustrans 2016

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SCO39263 (Yr Alban)